Hydref 2025

# Cylchlythyr Cymunedol

Prosiect Darpariaeth Effaith Weledol (VIP) Eryri



## Diweddariad ar y prosiect

**Croeso i'n cylchlythyr diweddaraf, sy'n dathlu cyfnod cyffrous i brosiect Darpariaeth Effaith Weledol (VIP) Eryri, wrth i ni gwblhau mwy na thraean y twnnel rydyn ni'n ei adeiladu o dan Aber Afon Dwyryd rhwng Minffordd a Llandecwyn.**



**Steve Ellison**
Uwch Reolwr Prosiect, Darpariaeth Effaith Weledol Eryri, National Grid

Rydyn ni wedi cael blwyddyn brysur a chynhyrchiol. Mae Buddug, ein Peiriant Twnelu (TBM), wedi cyrraedd ac wedi cael ei bendithio a'i lansio'n ddiogel. Rydyn ni'n gwneud cynnydd gwych ar ein gwaith twnelu. Mae'r ymdrechion hefyd yn parhau'n gyflym i baratoi'r siafft dderbyn ar ein safle yn Llandecwyn.

Fel bob amser, hoffem ddiolch i chi, y gymuned leol, am eich cefnogaeth i'n helpu ni i gyrraedd cerrig milltir ein prosiect. Gobeithio y bydd y diweddariad hwn yn ddefnyddiol i chi ac y byddwch yn mwynhau dysgu mwy am ein cynnydd.

Rydyn ni bob amser yn awyddus i glywed eich adborth. Felly, os oes rhywbeth yr hoffech chi i ni roi mwy ohono yn y cylchlythyr, os oes digwyddiad cymunedol y dylem ni wybod amdano, neu os hoffech chi awgrymu cyfle i ni wirfoddoli yn y gymuned, cysylltwch â ni.

## Buddug yn gweithio'n galed ac yn gyflym

**Yn dilyn dechrau'r gwaith twnelu ym mis Mai eleni, mae Buddug wedi gwneud cynnydd da. Mae'n gweithio 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, a'i thasg yw tyllu cyfanswm o 3329 metr a gosod 2774 o gylchoedd concrit i greu ein twnnel.**

Erbyn dyddiau olaf mis Hydref 2025, roedd Buddug wedi twnelu mwy na 1200 o fetrau ac wedi gosod mwy na 1000 o gylchoedd – gan gwblhau dros draean o'r daith.

Mae'r llun o'r awyr ar y dde yn dangos lle'r oedd hi wedi cyrraedd erbyn tua diwedd mis Hydref. Erbyn hyn, mae hi wedi twnelu heibio cylchfan Minffordd ac ar hyn o bryd mae hi i'r dwyrain o Ysgol Hafod Lon.

Disgwylir i'r gwaith twnelu gael ei gwblhau yn 2026 pan fydd Buddug yn cyrraedd Llandecwyn.






**Hyd yma, mae Buddug wedi:**

Gweithio am
**24** awr y dydd
**7** diwrnod yr wythnos
24/7

Twnelu dros
**1200** metr

Gosod dros
**1000** cylch concrit

nationalgrid


# Cydweithio yw'r gamp

**Ar ei thaith, mae Buddug wedi llwyddo i fynd o dan sawl ased lleol pwysig, gan gynnwys ffordd osgoi Porthmadog, Rheilffordd Arfordir y Cambrian, Rheilffordd Ffestiniog, cylchfan Minffordd a Pharc Busnes Eryri.**

Mae National Grid a thîm Eryri VIP wedi gweithio'n agos gyda pherchnogion yr asedau hyn, yn ogystal â rhanddeiliaid lleol, i gynllunio'r llwybr ar gyfer adeiladu'r twnnel yn ofalus er mwyn sicrhau cydlyniant di-dor ar draws meysydd allweddol fel logisteg mynediad, diogelwch adeiladu, a chydymffurfio amgylcheddol, ac i osgoi tarfu ar ddefnyddwyr ffyrdd a rheilffyrdd.

"Rydyn ni'n falch o fod wedi cwblhau'r cam pwysig a sensitif hwn o'n taith twnelu heb unrhyw drafferthion. Mae hyn yn dyst i'r berthynas waith agos sydd gennym ni â pherchnogion yr asedau, a'r lefel uchel o sgiliau ac arbenigedd sydd gan bob tîm."

**Steve Ellison**
Uwch Reolwr Prosiect, Eryri VIP, National Grid



# Sgil-gynhyrchion: ffeithiau cyflym

**Gyda mwy na 1,200 metr wedi'i dwnelu erbyn hyn, faint o ddeunydd sydd wedi cael ei gloddio ac i ble mae'n mynd? Dyma rai ffeithiau a ffigurau cyflym:**

- Mae mwy na **50,000** tunnell o ddeunydd wedi cael ei gloddio hyd yma
- Mae'r broses o gludo'r deunydd oddi ar y safle wedi arwain at oddeutu **2,000 o symudiadau gan loriau**, gan lynu'n gaeth i'n Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu er mwyn lleihau'r effaith ar yr ardal leol
- **Caiff 85% o'r deunydd ei anfon i'w ailddefnyddio yn chwarel leol** Breedon, Minffordd, gyda'r gweddill yn cael ei anfon i safleoedd eraill yng Ngwynedd
- Tua **75,000** tunnell o sgil-gynhyrchion ar ôl i'w cloddio



Sgil-gynhyrchion a dynnwyd o'r twnnel a'u cludo gan gludfelt i ardal storio dros dro ar ein safle yn Garth

**Cylchlythyr Cymunedol** | Eryri VIP National Grid

# Cloddio'n ddwfn yn Llandecwyn

**Wrth i Buddug wneud cynnydd da, mae tîm y prosiect wedi bod yn brysur yn adeiladu'r siafft dderbyn yn Llandecwyn a fydd yn ei chodi o'r ddaear ar ôl iddi orffen twnelu ar draws yr aber yn 2026.**

Mae'r prif waith trin tir ar gyfer y siafft wedi'i gwblhau, ac mae'r gwaith cloddio bellach yn mynd rhagddo'n dda. Mae'r cloddio wedi datgelu rhai canfyddiadau daearegol diddorol, gyda'r tîm yn dadorchuddio amrywiaeth o greigiau, gwaddodion a hyd yn oed rhai clogfeini. Mae'r deunydd yn cael ei anfon i'w brosesu a'i ailddefnyddio ar safleoedd yng Ngwynedd.

Wedi'i gwblhau, bydd y siafft yn 57 metr o ddyfnder.



Y siafft dderbyn yn Llandecwyn

## Beth sydd i ddod nesaf?

**Ar ôl cwblhau'r gwaith twnelu y flwyddyn nesaf, byddwn yn dechrau gosod y ceblau yn y twnnel a fydd yn disodli'r llinell uwchben a'r peilonau sy'n croesi Aber Afon Dwyryd. Bydd y gwaith o dynnu peilonau a llinellau uwchben yn cael ei gwblhau yn 2029.**

Yn dilyn hyn, bydd tîm y prosiect yn dechrau gweithio ar adeiladu penty'r twnnel a'r compownd selio pennau a fydd yn cysylltu'r ceblau tanddaearol â'r llinell uwchben bresennol.



Darganfyddiadau daearegol o gloddio'r siafft

# Pan gyfarfu Scarlett â Buddug

**Yn ein cylchlythyr diwethaf, fe soniom mai Scarlett Harvey, disgybl lleol, oedd wedi ennill cystadleuaeth enwi'r Peiriant Twnelu gyda'i chynnig, sef Buddug.**

Fel rhan o'i gwobr, cafodd Scarlett a'i rhieni eu gwahodd i gwrdd â Buddug ym Minffordd.

Cawsom brynhawn gwych a bu'n bleser dangos Scarlett o amgylch y safle ac ateb ei chwestiynau am ein gwaith.








**Cylchlythyr Cymunedol** | Eryri VIP National Grid



Buddug yn teithio ar hyd yr A55



Ar yr A55 yn Sir Ddinbych



Teithio heibio Penmaenmawr



Teithio ar hyd yr A487




# Taith hir i'r llinell gychwyn

**Ar ôl misoedd o gynllunio a pharatoi gofalus, cafodd Buddug ei chroesawu gan dîm Eryri VIP i safle'r prosiect ym Minffordd ym mis Tachwedd 2024.**

Mae'r Peiriant Twnelu yn gyfarpar arbenigol iawn sy'n mesur 166m ac yn pwyso 436 tunnell. Mae Buddug wedi cael ei defnyddio o'r blaen i gloddio 1.5km o dwnnel yn Singapore, ac yna cafodd ei hailweithgynhyrchu yn yr Almaen gan Herrenknecht ar gyfer Eryri VIP.

Cafodd Buddug ei chludo mewn darnau ar draws Môr y Gogledd i Ddociau Immingham yn Swydd Lincoln i ddechrau, cyn cael ei chludo i wasanaethau Caer. Wedyn, teithiodd ar draws Gogledd Cymru drwy 27 o wahanol ddanfoniadau ar hyd yr A55 a'r A487 i'n compownd adeiladu.

Ddydd Llun 25 Tachwedd 2024, fe wnaethom groesawu'r 'darian' sy'n rhan o'r darn blaen. I ddathlu'r achlysur, ymunodd yr amgylcheddwr, Chris Baines, a Phrif Swyddog Gweithredol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Jonathan Cawley, â ni ar safle Minffordd. Aeth aelodau o'r gymuned leol i sefyll ar hyd rhannau o'r llwybr ac ymweld â mynedfa'r safle i aros i'r darian gyrraedd.



Ar gylchfan Porthmadog



Cyrraedd safle prosiect Eryri VIP ym Minffordd



Y llafn torri a chydrannau eraill yn cyrraedd y safle



Pontydd gantri'n cyrraedd y safle

# Yn y Gymuned... O dan y ddaear ac ar y ddaear

Gyda Buddug yn brysur yn tyllu o dan y ddaear, byddwn yn parhau â'n **gwaith maes addysgol**, gan ymestyn ein gwaith i rannu gwybodaeth am bynciau STEM gyda'r genhedlaeth nesaf o beirianwyr a gwyddonwyr.

Rydyn ni hefyd wedi bod yn gweithio ar lawr gwlad i helpu mwy o grwpiau cymunedol drwy ein **rhaglen wirfoddoli**.

Byddwn hefyd yn parhau i ofyn am adborth a rhannu gwybodaeth drwy ein **Grŵp Cyswllt Cymunedol** a'n digwyddiadau agored.

Mae ein **Rhaglen Grantiau Cymunedol** yn parhau i gefnogi achosion lleol pwysig.

Dyma gipolwg ar gyfran o'r gwaith rydyn ni wedi bod yn ei wneud. Cadwch lygad ar wefan ein prosiect i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ein gweithgareddau.

### Ymweliad gan Goleg Menai

Ym mis Mehefin, cafodd myfyrwyr cwrs Lefel 3 mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig o Goleg Menai ymuno â ni i gael taith o amgylch safle prosiect Eryri VIP ym Minffordd, lle cawsant gyfle i brofi peirianneg sifil ar waith yn y byd go iawn.



### Rhaglen Grantiau Cymunedol

Rydyn ni'n falch iawn bod Ysgol Cefn Coch wedi cael £16,429 ym mis Mawrth 2025 i greu man chwarae diogel ac ardal bwrpasol ar gyfer gofal plant a dysgu ar ôl ysgol, gan alluogi rhagor o gymorth addysgol a chymunedol.

Yn ystod rownd gyllido Mehefin 2025, dyfarnwyd £19,680 i CPD Penrhyndeudraeth i adeiladu ardal llawr caled ar gyfer gwylwyr, a dyfarnwyd £18,444 i Dîm Achub Mynydd Aberglaslyn i arfogi wyth gwirfoddolwr newydd ac i uwchraddio systemau ymgilio cleifion.

Wrth siarad am y cyllid, dywedodd Owen Senior, swyddog codi arian Tîm Achub Mynydd Aberglaslyn: "Mae'r cyllid rydyn ni wedi'i gael gan Raglen Grant Cymunedol National Grid yn drawsnewidiol i'n gwirfoddolwyr a'r gymuned ehangach rydyn ni'n ei gwasanaethu.

"Bydd y cyllid grant hwn yn ein helpu ni i uwchraddio offer hanfodol sy'n achub bywydau ac yn ein helpu ni i gael hyd yn oed mwy o hyfforddiant. Bydd hyn yn gwella ein gallu i ymateb yn gyflym ac yn ddiogel i'r rheini sydd ein hangen ar draws y tiroedd heriol ar y mynyddoedd. Mae'n fuddsoddiad i ddiogelwch pawb sy'n crwydro neu'n byw yn ein hardal."

I gael rhagor o wybodaeth am y meini prawf cymhwysedd a sut mae gwneud cais i'r gronfa, ewch i: **https://www.nationalgrid.com/responsibility/community/community-grant-programme-welsh**



**Cylchlythyr Cymunedol** | Eryri VIP National Grid

### Gwirfoddoli

Yn ddiweddar, mae ein tîm wedi mwynhau amrywiol gyfleoedd gwirfoddoli yn yr ardal ac rydyn ni'n ddiolchgar i'r cynrychiolwyr o'r cymunedau lleol a'n helpodd i drefnu'r cyfleoedd hyn. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda Pharc Cenedlaethol Eryri ar raglen fisol o weithgareddau. Yn ddiweddar, aeth y tîm i gael gwared ar Jac y Neidiwr ar Lwybr Mawddach ac i Gwm Prysor i glirio canghennau er mwyn helpu i wneud y llwybr troed yn fwy diogel i'r cyhoedd.

Gan weithio gyda Chyngor Tref Penrhyndeudraeth, cynhaliodd tîm y prosiect ddiwrnod o wirfoddoli ym Marc y Mileniwm. Roedd eu gwaith yn cynnwys gosod mesurau i warchod sylfeini amryw o goed, chwynnu o amgylch gwelyau blodau a gwasgaru tomwellt i leihau twf chwyn yn y dyfodol.

Aeth y tîm ati hefyd i wirfoddoli ym Maentwrog, gan gynnwys helpu i gael gwared ar y bambŵ yn yr eglwys a helpu i osod blychau ystlumod yn yr ardal. I baratoi ar gyfer Sul y Cofio, bu'r tîm hefyd yn gwneud rhywfaint o waith cynnal a chadw a thirweddu gwirfoddol o amgylch y Senotaff.











### Grŵp Cyswllt Cymunedol

Mae ein Grŵp Cyswllt Cymunedol yn parhau i gyfarfod ddwywaith y flwyddyn, ac rydyn ni'n ddiolchgar i'n rhanddeiliaid lleol am eu hadborth, eu harweiniad defnyddiol a'u presenoldeb parhaus.



# Dangos ein gwerthfawrogiad

**I nodi'r garreg filltir bwysig o fod yn barod i ddechrau twnelu, ac i ddangos ein gwerthfawrogiad i'r rheini oedd wedi'n helpu ni i gyrraedd y cam hwn, fe wnaethom gynnal sawl ddigwyddiad ym mis Ebrill 2025.**

## Bendithio'r Peiriant Twnelu

Nid yw Buddug yn gweithio ar ei phen ei hun wrth iddi dyllu ein twnnel; mae hi'n cael cymorth gan sawl cloddiwr hynod ddewr a medrus. Mae Buddug a'i chriw yn gweithio'n ddwfn o dan y ddaear ac ymhell oddi wrth olau dydd, a bydd hyn yn fwy a mwy gwir erbyn camau olaf y gwaith.

Mae'n ddealladwy, felly, ei bod yn arferol bendithio Peiriannau Twnelu cyn eu lansio. Ar 15 Ebrill, roeddem yn falch iawn o gael cwmni'r Tad Francis Arinze Ayogu MSP o Borthmadog ar safle prosiect Eryri VIP, a gynhaliodd y seremoni fendithio ar gyfer Buddug. Dywedodd ychydig eiriau am y prosiect, gan gydnabod Santes Barbara, sef nawddsant y twnelwyr a'r cloddwyr, a dymuno pob lwc i Buddug ar ei thaith.





## Ymweliad cymdogion â'r safle

Wrth i'n paratoadau ar y safle cyn y lansiad ddatblygu, roedd hi'n bwysig i ni ein bod yn cydnabod cymdogion agosaf y safle am eu hamynedd a'u cefnogaeth barhaus. Roeddem yn falch o groesawu mwy na 30 aelod o gymuned Minffordd i'n safle ddydd Sadwrn 26 Ebrill ar gyfer ymweliad arbennig er mwyn iddynt gael gweld a deall ychydig mwy am y gwaith rydyn ni'n ei wneud. Roedd hyn yn cynnwys taith o amgylch y safle a chyfle i weld Buddug yn agos yn ei blwch lansio.

## Digwyddiad lansio i randdeiliaid

Yn dilyn y diwrnod agored i'n cymdogion, fe wnaethom gynnal digwyddiad lansio i randdeiliaid yng Nghastell Deudraeth, Portmeirion. Fe wnaethom wahodd partneriaid strategol a rhanddeiliaid y grŵp cynghori sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith ers sefydlu'r prosiect, ynghyd ag uwch swyddogion gweithredol National Grid, i'r cyfarfod hwn.

Roedd y diwrnod yn cynnwys areithiau gan dîm prosiect Eryri VIP, yr amgylcheddwr adnabyddus Chris Baines – Cadeirydd y Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid annibynnol ar gyfer prosiectau VIP, ac Alice Delahunty, llywydd National Grid Electricity Transmission. Wedyn, cafodd y gwesteion ymweld â safle'r prosiect.



## Cysylltwch â ni

Byddwn yn anfon gwybodaeth drwy gydol y cam adeiladu er mwyn rhoi gwybod i drigolion lleol am ein cynnydd. Rydym bob amser yn awyddus i glywed gennych gydag unrhyw gwestiynau neu adborth.

Cysylltwch â ni drwy ffonio **0800 019 1898**

drwy ysgrifennu at **Freepost VISUAL IMPACT PROVISION**

neu drwy anfon neges ebost at **visualimpact@nationalgrid.com**

Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect ar ein gwefan:
**nationalgrid.com/eryrivip**

Ailgylchwch os gwelwch yn dda